

## Dyfodol Plas Hall

Dw i'n siŵr y bydd gennych chi ddi-ddordeb mewn clywed am y cynlluniau ar y gweill ar gyfer Plas Hall yn y dyfodol agos. Wedi misoedd maith o ddyfalu (a oedd yn boen meddwl ar adegau), mae'n bleser croesawu perchnogion newydd sy'n gwerthfawrogi'r adeilad trawiadol a'r lleoliad. Fe wna i adael i **Mike a Carrie White** gyflwyno'u hunain.....



Bu i ni brynu **Plas Hall** ym mis Rhagfyr 2015 wedi i ni ddisgyn mewn cariad gyda'r hen blasty yn gynharach y llynedd. Bu i ni brynu'r adeilad fel adeilad meddiant gwag ac rydym yn bwriadu cynnal busnes unigryw yma yn y man. Rydym yn hannu o East Anglia yn wreiddiol a buom yn rhedeg busnes yn arbenigo mewn caennau o goed am dros 20 mlynedd. Aeth Mike ati i dyfu planhigion am 10 mlynedd wedi hynny ac aeth Carrie i weithio fel Rheolwr Cyfadran ym Mhrifysgol East Anglia. Mae gennym ni bedwar o blant sydd wedi tyfu fyny ac maen nhw'n teimlo cyffro tuag at y prosiect ond hefyd yn cwestiynu pam bod eu rhieni wedi dewis treulio blynyddoedd nesaf eu bywyd yn adfer hen adeilad.

Mae'r adeilad ar gau er mwyn i ni ei hadfer ar hyn o bryd. Byddwn yn mynd ati i wneud gwaith sylweddol ar rannau o'r dramwyfa er mwyn trwsio problemau gyda'r draenau sy'n achosi tamprwydd yn yr adeilad. Ein cynllun ar hyn o bryd ydy newid enw'r adeilad yn ôl i'w enw gwreiddiol – **Penaeldroch** – adfer yr estyniad pedwar llawr er mwyn cynnig ystafelloedd gwely i bobl aros ynddyn nhw yn wythnosol, agor caffi lle mae'r bar, newid rhannau o'r tir yn ôl i fod yn ardd a phlannu mwy o goed. Rydym hefyd yn bwriadu adeiladu dwy fflat addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn yr estyniad un llawr ac adfer y plasty gwreiddiol er mwyn creu ystafelloedd gwely. Mae dylunydd pensaernïol wrthi'n dylunio'r cynllun drafft ar hyn o bryd ond wrth gwrs mae popeth yn dibynnu ar dderbyn caniatâd cynllunio ac / neu fod popeth yn fforddiadwy!

I unrhyw un fyddai â diddordeb gweld y tu mewn i'r tŷ, rydym yn bwriadu cynnal diwrnod agored ar **ddydd Sadwrn Mawrth y 19eg o 2yp tan 4yp**. Bydd paned ar gael. Dewch ag unrhyw hen luniau (yr ydych yn fodlon i ni eu llungopïo) ac unrhyw atgofion o Blas Hall os gwelwch yn dda. Hyd yn oed os nad ydych chi'n bwriadu ymweld â'r tŷ, byddem yn ddiolchgar iawn o glywed straeon gan unrhyw un a oedd yn cofio'r adeilad fel gwesty – yn y 1970au mae'n debyg – a gan unrhyw un sy'n cofio'r hen erddi.

Rhif ffôn newydd Plas Hall / Penaeldroch **01690 750 316**

**Mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn felly gwylwch eich cam!**